



SOCIAL VALUE CYMRU



Gweithdy - Cyflwyniad i Werth Cymdeithasol

- A ydych wedi clywed am werth cymdeithasol neu Canfod Gwerth Buddiant Cymdeithasol ond ddim yn siŵr beth mae'n ei olygu?
- A ydych yn gwybod bod eich mudiad yn creu effaith ond nid yn siŵr sut i'w fesur?
- A hoffech gael aelodau o'r tîm i feddwl am sut mae eich gwaith yn cael effaith ar nifer o rhanddeiliad gwahanol?

Os ydych wedi ateb 'ydw' ar gyfer o leiaf un o'r cwestiynau yma, felly mae' hyfforddiant yma gan Social Value Cymru ar eich cyfer chi.

Beth ydy Gwerth Cymdeithasol?

Mae ein gweithgareddau yn cael effaith yn sicr a hynny yn effaith mwy na rhai ariannol. Gall hyn olygu newid ar iechyd a llesiant unigolion, cymunedau cryfach, neu leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r rhain yn ganlyniadau pwysig o'n gwaith. Fodd bynnag, anaml yr ydym yn mesur y rhain ac yn eu cyfathrebu mewn ffordd ddefnyddiol ac ystyrlon. Term eang yw Gwerth cymdeithasol felly sy'n cael ei ddefnyddio i ddangos y gwerth sydd yn cael ei greu tu hwnt i rai ariannol.

Beth yw Canfod Gwerth Buddiant Cymdeithasol? (Social Return on Investment SROI)

Fframwaith yw SROI sydd yn rhoi profiadau rhanddeiliad yng nghanol y broses sy'n ein cynorthwyo i ddeall beth sydd wedi newid fel canlyniad o'n gweithgareddau – ac yna rhoi gwerth ar y newidiadau yma.

Mae'n cael ei ddweud yn aml fod sinig yn gwybod am bris popeth, ond gwerth dim byd. Fodd bynnag mae SROI yn ein caniatáu i roi gwerth ar bethau sy'n bwysig i unigolion a mudiadau – a drwy wneud hyn gallem eu rheoli yn well a chyfathrebu gwerth ein gweithgareddau.

Pam mesur gwerth gymdeithasol?

Mae mudiadau yn y trydydd sector / sector gwirfoddol yn sicr yn creu gwerth cymdeithasol, ond yn aml y gwaethaf am dathlu hyn. Rydym angen gwella hyn- fe allem gryfhau ein hatebolrwydd i'n prif rhanddeiliad, gwella perthynas gydag aelodau mewnol, helpu i greu rhagor o effaith bositif, a phwysleisio ein gwerth i arianwyr a chomisiynwyr. Mae newidiadau deddfwriaethol diweddar yng Nghymru, fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn creu cyfleoedd i'r trydydd sector, a gall gwerth cymdeithasol eich helpu i sicrhau eich bod yn cael eich adnabod.

A ydych gyda diddordeb i gael cyflwyniad i werth cymdeithasol ac SROI?

Mae hyfforddwyr Social Value Cymru yn aelodau o Social Value UK a gyda phrofiad o gynnal hyfforddiant, cefnogaeth a gwasanaethau gwerthuso i fudiadau trydydd sector yng Nghymru. Rydym yn hyblyg ac yn hapus i deilwra pecyn ar eich cyfer.